



Cynnig cefnogaeth i ofalwyr a chyflawni dyletswyddau newydd yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1. Gofalwyr yng Nghymru

- Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, roedd mwy na 370,000 o ofalwyr yng Nghymru. Mae'n debygol bod y ffigur hwn gryn lawer uwch. Canfu'r cyfrifiad hefyd mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a'r gyfran uchaf o ofalwyr ifanc yn y DU¹.
- Mae gofalwyr yn cyfrannu 96% o ofal yn y gymuned yng Nghymru, cyfraniad sydd werth £8.1 biliwn bob blwyddyn²³.
- Daw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016 a'r nod yw trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu. Mae'n cynnwys newidiadau arwyddocaol ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys hawliau newydd a chyfrifoldebau newydd.

2. Hawliau Newydd

- Mae'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad newydd o ofalwr. Mae'r Ddeddf yn dileu'r gofynion presennol bod rhaid i ofalwr ddarparu 'gofal sylweddol, a hynny'n rheolaidd'. Y diffiniad newydd o ofalwr yw:

'Rhywun sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal am oedolyn neu blentyn anabl'.

- Mae dyletswydd newydd i gynnig cefnogaeth i ofalwyr; os yw awdurdod lleol yn penderfynu fod anghenion y gofalwr yn cwrdd â'r meini prawf, yna rhaid i'r awdurdod ystyried beth ellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny.

¹ <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census-analysis/provision-of-unpaid-care-in-england-and-wales--2011/art-provision-of-unpaid-care.html#tab-Key-Points>

² <http://www.carersuk.org/wales/news/vale-of-unpaid-care-in-wales>

³ <http://www.ccwales.org.uk/edrms/87472/>



3. Rhan 2 o'r Ddeddf – Llesiant, asesiadau o'r boblogaeth a gwasanaethau ataliol

- Mae'r Ddeddf yn golygu bod rhaid i staff hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chynnig cefnogaeth i ofalwyr sydd angen cymorth.
- Rhaid i staff hefyd ganfod beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn a pharchu eu hurddas.
- Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant fel:
 - Llesiant corfforol, meddyliol, emosiynol
 - Amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod
 - Addysg, hyfforddiant, hamdden
 - Perthynas ddomestig, teuluol a phersonol
 - Cyfraniad a wneir at gymdeithas
 - Sicrhau hawliau
 - Llesiant cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal ag addasrwydd llety
 - I oedolion, mae hefyd yn **cynnwys** rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith.
 - I blentyn, mae'n cynnwys datblygiad a llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad
- Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol asesu'r angen am ofal a chymorth yn eu hardaloedd, gan gynnwys gofalwyr. Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wedyn gynhyrchu asesiadau o'r boblogaeth; rhaid i'r rhain gynnwys tystiolaeth sy'n amlinellu anghenion gofalwyr, yn ogystal ag ystod a lefel y gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gwrdd â'r angen hwnnw.
- Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gyflwyno cynllun i Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio sut maen nhw'n bwriadu cwrdd ag anghenion gofalwyr.



4. Rhan 3 o'r Ddeddf – Aseidiadau Gofalwyr

- Rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i **unrhyw ofalwr** lle mae'n ymddangos i'r awdurdod y gall fod y gofalwr angen cymorth.
- Mae'r ddyletswydd i asesu'n berthnasol beth bynnag fo barn yr awdurdod o'r lefel o gefnogaeth mae'r gofalwr ei hangen neu'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddynt.
- Rhaid i asesiad o ofalwr gynnwys:
 - I ba raddau mae'r gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu'r gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal
 - Y deilliannau mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni
 - Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr
- Rhaid i asesiad o ofalwr roi ystyriaeth i awydd y gofalwr i weithio ac os yw'n cyfranogi neu'n dymuno cyfranogi mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden.
- **Rhaid i unigolyn deimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â phroffesiynwyr.**
- Gall awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion unigolyn ag asesiad anghenion ei ofalwr os ystyrir hynny i fod o fudd. Serch hynny, ni all yr awdurdod lleol ond gwneud hyn oni roddir cydsyniad dilys.



5. Rhan 4 o'r Ddeddf – Cymhwysedd, Cynllunio Gofal a Chymorth, Taliadau Uniongyrchol

- Rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad os yw'n ymddangos bod gofalwr angen cymorth.
- Mae cymhwyster y gofalwr am gymorth wedyn yn deillio o'r broses asesu.

Mae anghenion gofalwr yn bodloni meini prawf ar gyfer cymhwyster:

- a) os yw'r angen yn deillio o ganlyniad i ddarparu gofal am oedolyn neu blentyn
- b) os nad oes modd i'r gofalwr fodloni'r angen:
 - i) os yw ar ei ben ei hun
 - ii) os gall ddibynnu ar gymorth eraill sy'n fodlon darparu'r gefnogaeth honno, neu
 - iii) â chymorth gwasanaethau yn y gymuned sydd ar gael i'r gofalwr, ac
- c) mae'r gofalwr yn anhebygol o gyrraedd un neu fwy o'u deilliannau personol sy'n perthyn i'r deilliannau penodol yn Rhan 3 y Ddeddf

- Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i baratoi cynllun cymorth ar gyfer gofalwr sydd wedi cael ei asesu i fod ag anghenion cymwys, a'i adolygu'n gyson.
- Rhaid ystyried taliadau uniongyrchol fel rhan annatod o'r broses cynllunio gofal, ac ni ddylid bellach eu gweld fel ystyriaeth eilaidd i gwrdd â gofynion cymorth y gofalwr.
- Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi gofalwr i benderfynu os yw am gael taliad uniongyrchol ar gyfer unrhyw gymorth yr ystyrir hwy i fod yn gymwys i'w dderbyn.
- Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael mewn achos lle mae gofalwr yn mynegi dymuniad i'w cael a lle maent yn galluogi gofalwr i gyflawni eu deilliannau personol.